Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 21 Medi 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

89(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd - Gohiriwyd o 14 Medi

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn ateb cwestiynau ar ran y Gweinidog.

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg - Gohiriwyd o 14 Medi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

3 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - Gohiriwyd tan 28 Medi

4 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd - Gohiriwyd tan 28 Medi

5 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi

Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y newyddion diweddar bod Bearmach Cyf. ar Ystâd Ddiwydiannol Pantglas, Bedwas, wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr?

Gofyn i Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon

Heledd Fychan (Canol De Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda rhanddeiliaid lleol a chynrychiolwyr undebau ynglŷn â diogelu hawliau gweithwyr yn dilyn y cyhoeddiad diweddar ynglŷn ag allanoli gwasanaethau yng Nghanolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas Menai?

6 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd - Gohiriwyd o 14 Medi

(60 munud)

NDM8072 Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Dlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd, a osodwyd ar 18 Mai 2022.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Awst 2022.

8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith - Ynni adnewyddadwy yng Nghymru - Gohiriwyd o 14 Medi - Tynnwyd yn ôl

(0 munud)

Tynnwyd y cynnig yn ôl

9 Cynnig i gymeradwyo'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd a nodi'r adroddiad cydymffurfio ar gyfer y cyfnod 2021-22 - Gohiriwyd tan 28 Medi

10 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 - Gohiriwyd tan 12 Hydref

Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

(5 munud)

NNDM8075 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.22(i) er mwyn caniatáu i'r gwelliannau a gyflwynwyd i NDM8073 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 21 Medi 2022.

11 Dadl Plaid Cymru - Costau byw - Gohiriwyd o 14 Medi

(60 munud)

NDM8073 Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod y cynnydd presennol mewn biliau ynni yn anghynaladwy ac y bydd yn achosi straen ariannol a chaledi i aelwydydd, busnesau, a grwpiau cymunedol, tra bod cwmnïau tanwydd ffosil yn gwneud yr elw mwyaf erioed.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu mesurau argyfwng costau byw ehangach ar unwaith, fel:

a. haneru prisiau trenau a gosod cap ar brisiau bws;

b. gweithio gydag awdurdodau lleol i glirio rhai o'r ôl-ddyledion treth gyngor sylweddol sydd wedi cronni yn ystod cyfnod y pandemig;

c. rhewi rhent;

d. ailgyflwyno mesurau i wahardd troi allan yn y gaeaf;

e. ehangu'r cynllun prydau ysgol am ddim i blant ysgol uwchradd;

f. cynyddu'r lwfans cynhaliaeth addysgol i £45.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno ardoll ar elw ynni.

Yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â chostau byw, gan gynnwys:

a) gwarant pris ynni, sy'n rhoi cap ar gostau ynni;

b) taliadau costau byw i bob ar fudd-daliadau incwm isel a chredydau treth gwerth £650;

c) taliad costau byw anabledd gwerth £150;

d) gostyngiadau misol mewn biliau tanwydd o fis Hydref ymlaen gwerth £400;

e) cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol i £9.50 yr awr;

f) gostyniad yn y gyfradd taper credyd cynhwysol;

g) rhewi'r dreth tanwydd;

h) rhewi ffi'r drwydded teledu am dwy flynedd;

i) taliadau tanwydd gaeaf ychwanegol.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i gefnogi pobl, busnesau a'r trydydd sector i wynebu'r heriau sydd i ddod.

[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]

Gwelliant 2 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi'r canlynol yn ei le:

Yn credu bod Llywodraeth y DU yn methu â dirnad difrifoldeb yr argyfwng hwn, ac y byddai'n caniatáu i bobl sy'n gweithio dalu cost cap ynni yn hytrach na threthu elw digynsail cynhyrchwyr nwy ac olew.

Yn croesawu'r £1.6bn a fuddsoddir yn benodol i helpu gyda chostau byw a'r rhaglenni cyffredinol sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl a ddarperir gan Lywodraeth Cymru y flwyddyn ariannol hon, gan gynnwys:

a) ehangu Taliad Cymorth Tanwydd y Gaeaf o £200 ar gyfer 400,000 o aelwydydd y gaeaf hwn;

b) dechrau cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl cynradd o fis Medi 2022;

c) buddsoddi £51.6m yn y Gronfa Cymorth Dewisol i arbed pobl sydd mewn argyfwng ariannol difrifol;

d) £4m ar gyfer talebau tanwydd i helpu pobl sydd ar fesuryddion talu ymlaen llaw a banc tanwydd i bobl nad ydynt ar y prif gyflenwad nwy.

12 Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig - Gohiriwyd tan 28 Medi

13 Cyfnod Pleidleisio

14 Dadl Fer - Gohiriwyd o 14 Medi

(30 munud)

NDM8070 Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Darparu prydau ysgol am ddim i bawb: yr heriau a'r cyfleoedd.

15 Dadl Fer (Joel James (Canol De Cymru)) - Gohiriwyd tan 28 Medi

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 27 Medi 2022

Eitem 1

Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 07/09/2022 i'w hateb ar 21/09/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

Natasha Asghar *Dwyrain De Cymru*

1 OQ58380 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau allyriadau carbon yng Nghymru?

Rhys ab Owen *Canol De Cymru*

2 OQ58400 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gronfa diogelwch adeiladau?

Jack Sargeant *Alun a Glannau Dyfrdwy*

3 OQ58406 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o sut y bydd penderfyniad Arriva Cymru i gynyddu prisiau yn effeithio ar drigolion Alun a Glannau Dyfrdwy?

Darren Millar *Gorllewin Clwyd*

4 OQ58393 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod lleisiau cymunedau'n cael eu clywed mewn perthynas â datblygiadau cynhyrchu ynni newydd?

Huw Irranca-Davies *Ogwr*

5 OQ58376 **(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol a pherchnogion cartrefi preifat i ymateb i gostau ynni cynyddol?

Peter Fox *Mynwy*

6 OQ58387 **(e)**

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella diogelwch dŵr yng Nghymru?

Carolyn Thomas *Gogledd Cymru*

7 OQ58395 **(e)**

A wnaiff Llywodraeth Cymru ymrwymo i rewi rhenti ac atal troi allan er mwyn helpu tenantiaid drwy'r argyfwng costau byw?

Hefin David *Caerffili*

8 OQ58392 **(e)**

Pa bolisïau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru sydd ar waith i ddiogelu coetiroedd hynafol?

Mabon ap Gwynfor *Dwyfor Meirionnydd*

9 OQ58408 **(w)**

Pa gamau y mae'r Llywodraeth am eu cymryd i helpu tenantiaid yn ystod yr argyfwng costau byw presennol?

Heledd Fychan *Canol De Cymru*

10 OQ58407 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi trigolion y mae gwaith deuoli'r A465 yn ardal Hirwaun wedi effeithio arnynt?

Tom Giffard *Gorllewin De Cymru*

11 OQ58409 **(e)**

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud tuag at gyrraedd ei tharged ar gyfer adeiladu cartrefi newydd yng Ngorllewin De Cymru?

Jenny Rathbone *Canol Caerdydd*

12 OQ58391 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella effeithlonrwydd ynni pyllau nofio yn ystod yr argyfwng ynni presennol?

GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

Llyr Gruffydd *Gogledd Cymru*

1 OQ58403 **(e)**

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi myfyrwyr sy'n gwneud cyrsiau prifysgol israddedig sy'n gymwys i gael cyllid y GIG?

Sioned Williams *Gorllewin De Cymru*

2 OQ58402 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn ystyried effaith yr argyfwng costau byw wrth ariannu ysgolion yng Ngorllewin De Cymru?

Tudalen y pecyn 2

Delyth Jewell *Dwyrain De Cymru*

3 OQ58412 **(w)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd er mwyn ceisio lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion ysgol o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol?

Altaf Hussain *Gorllewin De Cymru*

4 OQ58377 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniadau arholiadau 2022 yng Ngorllewin De Cymru?

Heledd Fychan *Canol De Cymru*

5 OQ58411 **(w)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu i ysgolion yn sgil yr argyfwng costau byw?

Darren Millar *Gorllewin Clwyd*

6 OQ58394 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i helpu myfyrwyr gyda heriau costau byw?

Peredur Owen Griffiths *Dwyrain De Cymru*

7 OQ58399 **(e)**

Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i greu'r amgylchedd dysgu gorau ar gyfer plant?

Ken Skates *De Clwyd*

8 OQ58404 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi cynorthwywyr addysgu yn ysgolion Cymru?

Carolyn Thomas *Gogledd Cymru*

9 OQ58396 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ysgolion yn addysgu plant am bwysigrwydd natur a bioamrywiaeth?

Rhianon Passmore *Islwyn*

10 OQ58413 **(e)**

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud o ran hyrwyddo cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb ar draws ysgolion cynradd yn Islwyn?

Mike Hedges *Dwyrain Abertawe*

11 OQ58383 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith chwyddiant ar gyllidebau ysgolion ar gyfer 2022-23 ?

Hefin David *Caerffili*

12 OQ58390 **(e)**

Pa ddarpariaeth y mae ysgolion yn ei wneud ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd?